

Rhwng dwy ardd

*“Gyrrodd y dyn allan; a gosododd gerwbiaid i’r dwyrain o ardd Eden.”
(adn. 24)*

Beth am ddarllen Genesis 3:17–24 a Datguddiad 22:1–5 ac yna myfyrio

Pam, a siarad yn gyffredinol, y cawn y fath anhawster i gerdded drwy’r byd yma gyda golwg ar y nefoedd yn ganolog? Un rheswm, efallai, yw ein bod yn credu y gallwn gael y nefoedd yn awr. Mae yna ganran uchel o gredinwyr yn ymddangos fel petaent yn credu fod bod yn Gristion yn golygu nad oes angen i ni mwyach ymladd gydag anawsterau a phroblemau, ac na fyddwn byth yn dioddef o unrhyw anhwylder, ac yn y blaen. Mae angen dweud yn syth fy mod wedi gweld digon o wyrthiau i beri fy mod yn credu yn sicr yng ngallu Duw i’w cyflawni. Yn wir, credaf fod llawer ohonom yn araf i feddiannu’r adnoddau sydd gan Iesu i gyfoethogi ein bywyd yn y byd. Mae Duw yn dymuno bendithio ei bobl. Yn wir, mae’n ymhyfydu yn eu bendithio. Nid yw yn anghywir i ofyn i Dduw ateb yr anawsterau. Nid yw’n anghywir i ofyn i Dduw iachau. Nid yw’n anghywir i ofyn am wyrth pan fyddwn mewn trafferthion. Gwelais ef yn gweithio yn fy mywyd fy hun yn y ffyrdd uchod, ac yr wyf yn disgwyl y bydd Duw yn ei drugaredd yn gwneud hynny eto.

Wedi dweud hynny, rhaid i’r olwg sydd gennym fel Cristnogion fod yn un wastad, heb gredu am eiliad fod bod yn Gristion yn golygu na fydd raid i ni wynebu anawsterau a thrafferthion. Wedi i Dduw anfon Adda ac Efa allan o ardd Eden, rhoddodd warchodwr wrth y porth i’w hatal rhag mynd yn ôl i mewn. Yr ydym yn awr yn byw y tu allan i’r ardd mewn byd sydd â chlwy pechod ymhobman. Mae yna ardd arall yn ein disgwyl, ond mae honno yn y dyfodol. Yn y cyfamser, mae’n rhaid i ni fyw mewn gardd sydd, er yn brydferth, eto yn meddu ar ddrain a mieri. Mae’r rhai sydd yn anwybyddu hyn yn bradychu agwedd meddwl anwastad i’r bywyd Cristnogol.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Rhuf. 1:18–32; Salm 37:35–36; 102:25–26

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut mae’r salmydd yn disgrifio ein bywyd?
2. Beth yw ei ganlyniad?

Gweddi

O Dad, dysga fi i fod yn onest ynglŷn â’r modd yr wyf yn delio â’r bywyd. Dysga fi i fod yn onest ynglŷn â byw mewn gardd sydd â drain a mieri. Nid y byd yma yw’r nefoedd, ond medraf gael blas wrth deithio tua’r nefoedd. Diolch i ti, O Dad. Amen.